PECYN RECRIWTIO SWYDD

RHEOLWR DATBLYGU BUSNES

Theatr Spectacle Cyf - De Cymru

www.spectacletheatre.co.uk

Llawn Amser (35 awr yr wythnos) **| Cyflog: £31252 – £34320 | Telerau ac amodau Equity ITC. Pensiwn 8%.**

Lleoliad: Theatr Spectacle Cyf, Welsh Hills Works, Jenkin Street, Porth, CF39 9PP, gyda theithio ar draws y de

Dyddiad Cau Ceisiadau: Dydd Gwener, 16 Mai, 2025, 1pm

Dyddiad Cychwyn: Mehefin 2025

Mae angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd

AMDANON NI

Mae Theatr Spectacle, a sefydlwyd yn 1979 yng nghymoedd y de, yn creu theatr ddwyieithog gyda ac ar gyfer pobl yn eu cymuned. Rydyn ni'n creu gofodau diogel ac yn herio eithrio, gan weithio gyda phobl o bob oed, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu cymhleth neu ychwanegol a/neu ymddygiad heriol.

Ein cenhadaeth yw trawsnewid bywydau drwy theatr, drwy ein cred bod theatr ar gyfer pawb, a bod gan bawb stori i'w hadrodd. Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan brofiad byw'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw, ac rydyn ni'n darparu cynyrchiadau theatr addysgol, gweithdai creadigol, a sesiynau cyfranogol adloniadol yn bennaf ar draws cymoedd y de.

Y CYFLE

Mae Theatr Spectacle yn creu tîm arwain newydd sy'n cynnwys Rheolwr Datblygu Busnes ac Arweinydd Tîm Artistig. Y nod yw gwella'n gwytnwch sefydliadol a chefnogi'n twf a'n cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Mae hon yn eiliad allweddol i ymuno â'n sefydliad ac i helpu i siapio ein cyfeiriad yn y dyfodol.

Y SWYDD

Bydd y Rheolwr Datblygu Busnes yn gyfrifol am nodi cyfleoedd newydd ar gyfer twf, datblygu partneriaethau strategol, a chynyddu ffrydiau cyllid. Bydd y swydd yn gweithio'n agos gyda'r tîm arwain i ehangu cyrhaeddiad ac effaith y theatr gan gadw'n gyson â chenhadaeth y sefydliad o ddarparu theatr addysgol o ansawdd uchel.

Cyfrifoldebau Allweddol

Datblygu Strategol

- Nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd busnes a marchnadoedd newydd ar gyfer gwasanaethau theatr addysgol
- Datblygu a gweithredu strategaeth datblygu busnes gynhwysfawr sy'n cyd-fynd â chenhadaeth y sefydliad
- Ymchwilio a gwneud cais i ffynonellau cyllid gan gynnwys grantiau, nawdd, a phartneriaethau masnachol
- Monitro tueddiadau'r diwydiant a gweithgarwch cystadleuwyr i nodi cyfleoedd twf

Meithrin Partneriaethau

- Meithrin a chynnal perthnasoedd gydag ysgolion, sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol, a phartneriaid corfforaethol
- Cynrychioli Theatr Spectacle mewn digwyddiadau rhwydweithio, cynadleddau a sgyrsiau diwydiant

Gwerthu a Marchnata

- Datblygu cynigion a chyflwyniadau perswadiol ar gyfer darpar gleientiaid a phartneriaid
- Gweithio gyda'r tîm i greu deunyddiau ac ymgyrchoedd marchnata effeithiol
- Datblygu a rheoli'r system rheoli perthnasoedd cwsmeriaid (CRM) er mwyn tracio posibiliadau a chyfleoedd

Rheolaeth Ariannol

- Gosod a chyflawni targedau cyllid yn unol â chyllideb y sefydliad
- Monitro mesuryddion perfformiad a darparu adroddiadau rheolaidd i'r tîm arwain a'r Ymddiriedolwyr
- Datblygu strategaethau prisio ar gyfer gwahanol elfennau o'r farchnad

Cydweithio mewn Tîm

- Gweithio'n agos gydag Arweinydd y Tîm Artistig i ddatblygu rhaglenni y gellir eu marchnata
- Cydweithio ag Arweinydd y Tîm Artistig ar gynllunio cyllidebau ac adnoddau

- Cefnogi'r Swyddog Cyllid i dracio costau prosiectau a chyllid
- Cyfrannu at waith cynllunio a strategaeth sefydliadol gyffredinol

AMDANOCH CHI

Bydd yr ymgeisydd delfrydol:

- Yn brofiadol o ran datblygu busnes, yn ddelfrydol yn y sectorau celfyddydol, addysg neu nid-er-elw
- Wedi ymrwymo i ddatblygiad addysgol, cymdeithasol a diwylliannol plant, pobl ifanc a chymunedau
- Yn gynhwysol yn eu hagwedd ac yn gefnogol i'r Gymraeg
- Yn gallu cydbwyso'r gwaith o ddatblygu strategaeth hirdymor ac atebion tymor byr
- Yn bendant, yn hyblyg ac yn wydn yn wyneb newid
- Yn fedrus iawn o ran rhwydweithio a meithrin perthnasau
- Yn gallu cyfathrebu'n rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Yn brofiadol yn ysgrifennu ac yn cyflwyno cynigion
- Yn deall tirwedd ariannu'r celfyddydau yng Nghymru
- Yn fedrus mewn systemau CRM a dadansoddi data
- Trwydded yrru ddilys
- Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol ond ddim yn hanfodol
- Yn fodlon ymgymryd â hyfforddiant

PROFIAD A CHYMWYSTERAU

Hanfodol

- Tystiolaeth o lwyddiant mewn gwaith datblygu busnes, creu incwm neu godi arian
- Addysg i lefel gradd neu brofiad cyfatebol mewn maes perthnasol
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gan gynnwys profiad o baratoi cynigion a chyflwyniadau.
- Profiad o feithrin partneriaethau a chysylltiadau gyda rhanddeiliaid ar draws sectorau.
- Hyfedr mewn systemau technoleg gwybodaeth gan gynnwys CRM, Microsoft Office, ac offer ariannol neu gyfrifyddu fel Quickbooks
- Trwydded yrru ddilys a mynediad at gerbyd
- Chwaraewr tîm

Dymunol

- Gallu siarad Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg.
- Y gallu i ddatblygu strategaethau prisio a dulliau o rannu'n elfennau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd
- Profiad o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac offer digidol i gefnogi gwaith marchnata a chyfathrebu
- Dealltwriaeth o'r tirwedd celfyddydau, addysg neu'r trydydd sector yng Nghymru
- Gwybodaeth am rwystrau cynhwysiant ac arfer sy'n ystyriol o drawma
- Dealltwriaeth o faterion diogelu

TELERAU

- Cytundeb cyfnod penodol o flwyddyn i ddechrau, gyda photensial ar gyfer cyflogaeth barhaol
- Llawn amser (35 awr yr wythnos), o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda pheth gwaith gyda'r nos ac ar y penwythnos
- Swyddfa yn Welsh Hills Works, Porth, gyda theithio i ysgolion a lleoliadau cymunedol
- Angen gwiriad DBS manylach
- Cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf: tri mis

SUT I WNEUD CAIS

Anfonwch eich cais mewn e-bost at apply@spectacletheatre.co.uk gyda “**BDM**” yn y llinell bwnc erbyn **1pm ddydd Gwener, 16 Mai 2025**.

Dylai eich cais gynnwys:

- Datganiad (uchafswm o 1000 o eiriau) yn egluro pam y byddech chi'n addas ar gyfer y swydd hon a beth fyddech chi'n ei gyfrannu i'r swydd
- Eich CV presennol

LLINELL AMSER

- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**: Dydd Gwener, 16 Mai, 2025, 1pm
- **Cyfweliadau**: Yr wythnos yn dechrau 26 Mai 2025
- **Dyddiad dechrau**: Mehefin 2025

CYFLE CYFARTAL

Mae Theatr Spectacle Cyf wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bawb.

Rydyn ni’n croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir, yn enwedig pobl sy’n cael eu tangynrychioli yn y sector celfyddydol a diwylliannol.

Os bydd angen unrhyw gymorth mynediad neu addasiadau arnoch yn ystod y broses recriwtio, rhowch wybod i ni.

DATA A DIOGELU

Drwy wneud cais am y swydd hon, rydych yn cydsynio i unrhyw ddata personol rydych wedi’i ddarparu i ni gael ei storio a’i drin yn ddiogel. Wnawn ni byth rannu’ch data gyda thrydydd parti heb eich cydsyniad. Gallwch ofyn am i’ch data gael ei waredu unrhyw bryd, drwy anfon e-bost at steve.davis@spectacletheatre.co.uk